



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Apeliadau o dan adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau
Tramwy yn gysylltiedig ag eithrio neu gyfyngu ar fynediad i
dir

Canllaw i Apelyddion

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad	2
1. A ddylid apelio?	4
2. Sut a phryd dylwn i apelio?	5
3. Y weithdrefn ysgrifenedig	10
4. Y weithdrefn gwrandawriad	12
5. Y weithdrefn ymchwiliad	14
6. Dyfarnu costau apeliadau	17
7. Penderfyniad yr Arolygydd	17
8. Cwynion a Heriau	18
9. Diogelu data a phreifatrwydd yn yr Arolygiaeth Gynllunio	20

Atodiadau

- Atodiad un (diagram o'r weithdrefn ysgrifenedig)
- Atodiad dau (diagram o'r weithdrefn gwrandawriad)
- Atodiad tri (diagram o'r weithdrefn ymchwiliad)

Apeliadau yn erbyn penderfyniad awdurdod perthnasol i beidio ag eithrio neu gyfyngu ar fynediad i dir

Mae ail bennod Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen yn y llyfryn fel **y Ddeddf**) yn cynnwys mesurau i gyfyngu ar neu eithrio mynediad i gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig a fapiwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC). Yn y lle cyntaf, dylid gwneud ceisiadau i gyfyngu ar fynediad i dir i'r Awdurdod Perthnasol. Gall hwn gynnwys CCGC, neu lle y mae'r tir yn syrthio o fewn Parc Cenedlaethol, Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Os yw'r tir wedi'i roi yng ngofal y Comisiwn Coedwigaeth ac mae'n goetir yn bennaf, y Comisiynwyr fydd yn ymdrin ag unrhyw apeliadau.

Mae Adran 30 y Ddeddf yn sicrhau y gall ymgeiswyr apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio os yw'r Awdurdod Perthnasol wedi penderfynu peidio â gweithredu yn unol â chais i gyfyngu ar neu eithrio mynediad at ddibenion rheoli tir, tân neu berygl i'r cyhoedd.

Yn ogystal â hyn, lle bo awdurdod perthnasol eisoes wedi cyhoeddi cyfarwyddyd i eithrio neu gyfyngu ar fynediad yn dilyn cais gan berson â diddordeb, mae'n rhaid iddynt ymgynghori â'r person hwnnw (neu bwy bynnag sydd wedi cymryd eu diddordeb yn y tir drosodd) cyn diddymu neu amrywio cyfarwyddyd. Os bydd y person â diddordeb yn gwneud cynrychioliadau i'r Awdurdod Perthnasol a bydd yr Awdurdod hwnnw yn penderfynu peidio â gweithredu yn unol â'r cynrychioliadau hynny, mae gan y person â diddordeb hawl i apelio.

Yr Arolygiaeth Gynllunio a Chynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn penderfynu ar unrhyw apeliadau a wneir.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r weithdrefn ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod perthnasol i beidio ag eithrio neu gyfyngu ar fynediad i dir neu lle y dylai'r awdurdod perthnasol fod wedi gweithredu yn unol â'r cynrychioliad(au) a wnaed gan berson â diddordeb yn y tir, ond na wnaeth hynny. Roedd y wybodaeth a gynhwyswyd ynddo yn gywir pan gafodd ei gyhoeddi, ond nid oes iddo statws cyfreithiol.

Ynglŷn â'r Arolygiaeth Gynllunio

Rydym yn un o asiantaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. O'n swyddfa yng Nghaerdydd, rydym yn ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniad yr awdurdod perthnasol yng Nghymru i beidio â chyfyngu ar neu eithrio mynediad i dir at ddibenion rheoli tir, tân a pherygl neu gadwraeth natur a chadw treftadaeth neu i beidio â gweithredu yn unol â'r cynrychioliad(au) a wnaed gan berson â diddordeb yn y tir. O'n swyddfa ym Mryste, rydym yn ymdrin ag apeliadau tebyg ar gyfer tir yn Lloegr.

Mae gan yr Arolygwyr, sy'n barnu'r apeliadau, amrywiaeth o gefndiroedd. Dewiswn yr Arolygwyr yn ofalus iawn a byddwn yn eu hyfforddi'n drylwyr. Maent yn gweithio o gartref yn gyffredinol.

Pan fydd staff ein swyddfa yn derbyn eich ffurflen apelio, byddant yn casglu'r holl wybodaeth am eich achos. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich apêl, gallwch gysylltu â'ch swyddog achos. Byddwn yn rhoi eu henw a'u rhif ffôn i chi. Ychydig cyn yr ymweliad â'r safle, y gwrandawriad neu'r ymchwiliad, bydd eich swyddog achos yn anfon eich papurau apelio at yr Arolygydd, a fydd yn eu hastudio. Ar ôl ymweld â'r safle, neu gynnal gwrandawriad neu ymchwiliad, bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu'r penderfyniad. Bydd eich swyddog achos yn anfon y penderfyniad atoch.

1. A ddylid apelio?

A oes gennyf hawl i apelio?

Dim ond pobl sydd â diddordeb cyfreithiol yn y tir a fapiwyd gan fapiau dros dro neu derfynol CCGC fel cefn gwlad agored neu dir comin cofrestredig all apelio. Er mwyn cael diddordeb cyfreithiol yn y tir, mae'n rhaid:

- mai chi yw'r tiffeddiannwr neu'r tenant;
- i chi ddal hawliau tir comin neu hawliau hela; neu
- i chi gael unrhyw ddiddordeb arall yn y tir, megis trwydded bori neu hawl tramwy preifat.

Rhoddir manylion am ddiddordeb yn y tir yn adran 45(1) y Ddeddf. Os nad ydych yn sicr p'un a oes gennych ddiddordeb, dylech gysylltu â chynghorydd cyfreithiol, Canolfan Cyngor ar Bopeth neu sefydliad sy'n cynrychioli rheolwyr tir.

Sail yr Apêl

Sail eich apêl a wnaed ar y ffurflen apelio yw eich cynrychioliadau ar gyfer eich achos. Mae'n bwysig eich bod yn eu nodi'n glir. Mae angen i chi esbonio pam eich bod yn anghytuno â phenderfyniad yr Awdurdod Perthnasol. Dylech ymdrin â phob un o resymau'r Awdurdod Perthnasol dros wrthod eich cais. Nid yw'n ddigonol dweud nad ydych yn derbyn rhesymau'r Awdurdod Perthnasol. Os na roddwch sail eich apêl, efallai na fydd eich apêl yn ddilys. Os oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ystyried, dylech ddweud wrthym yn glir ond yn gryno. Gall yr Awdurdod Perthnasol roi sylwadau wedyn ar y materion hyn pan fyddant yn gwneud eu datganiad.

Os yw eich apêl yn ymwneud â'r Awdurdod Perthnasol yn gwrthod rhoi penderfyniad i chi ar gais, neu os ydych yn anfodlon ynglŷn â natur yr eithriad/cyfyngiad a roddwyd, dylech nodi yn sail eich apêl pam y credwch y dylid caniatáu eich cynnig.

Os ystyriwn fod unrhyw ran o'ch cynrychioliadau yn cynnwys sylwadau hiliol neu sarhaus, byddwn yn eu dychwelyd atoch cyn i'r Arolygydd eu gweld. Os byddwch yn hepgor y sylwadau hiliol neu sarhaus, gallwch anfon eich sylwadau atom eto. Ond mae'n rhaid i ni eu derbyn cyn y daw'r terfyn amser i ben.

2. Sut a phryd dylwn i apelio?

Mae'n rhaid apelio o fewn y **cyfnod apelio**. Mae'r cyfnod hwn chwe wythnos o ddyddiad y penderfyniad a achosodd yr apêl neu, lle bo'r penderfyniad yn benderfyniad i roi cyfarwyddyd, o ddyddiad y cyfarwyddyd hwnnw.

Mae'n rhaid cyflwyno'r apêl ar ffurflen apelio safonol a gallwch ei chael ar ein gwefan yn www.planning-inspectorate.gov.uk/accesswales/wal/index.htm. Neu, os cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod, byddwn yn anfon set o ffurflenni apelio atoch:

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Y Tîm Mapio Mynediad a Chyfyngiadau
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0303 444 5940

E-bost: wales@planninginspectorate.gov.uk

Dylech lenwi dau gopi o'r ffurflen apelio. Mae un ar ein cyfer ni ac mae'r llall i chi ei gadw.

Cofiwch y terfyn amser o chwe wythnos. Os derbyniwn hi ar ôl y dyddiad hwnnw, ni fyddwn yn gallu ymdrin â hi.

Dewis y Weithdrefn

Mae'r apeliadau yr ymdrinnir â hwy gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn dilyn tri math o weithdrefn:

- Cynrychioliadau ysgrifenedig;
- Gwrandawriad; neu
- Ymchwiliad.

Dylech ystyried yn ofalus y math o weithdrefn sydd fwyaf addas i'ch apêl. Er bod yr amserlenni ar gyfer cyflwyno tystiolaeth yn debyg iawn, mae digwyddiadau'r apeliadau eu hunain yn gwahaniaethu'n fawr. Golyga hyn y bydd apêl y penderfynir arni drwy'r weithdrefn ymchwiliad fel rheol yn cymryd mwy o amser i'r Arolygydd benderfynu arni a bydd yn cynnwys mwy o amser a chost o ran ei pharatoi.

Pa weithdrefn bynnag y penderfynwn arni, bydd yr Arolygydd fel rheol yn ymweld â'r safle cyn gwneud penderfyniad.

Pan fyddwch yn penderfynu pa weithdrefn i'w defnyddio, dylech ystyried y pwyntiau canlynol:

- Bydd canlyniad yr apêl bob amser yn dibynnu ar ei theilyngdod;
- Mae'r weithdrefn ysgrifenedig fel rheol yn gyflymach ac yn rhatach;
- Mae gwrandawriad yn ffordd anffurfiol o roi tystiolaeth. Ni chaniateir croesholi ffurfiol fel rheol;
- Gallwch chi neu'r Awdurdod Perthnasol ofyn i gael eich gwrandawrio, ond ni fydd yn dewis pa weithdrefn sydd orau ar gyfer eich apêl;
- Gellir dyfarnu costau mewn achosion yr ymdrinnir â hwy drwy wrandawriadau neu ymchwiliadau. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn adran chwech.

Er mwyn osgoi'r posibilrwydd o gost ychwanegol ac i gael penderfyniad cyn gynted â phosibl, y dull ysgrifenedig yw'r gorau. Dim ond os credir bod gwrandawriad neu ymchwiliad yn hollol angenrheidiol y bydd y rhan fwyaf o bobl yn gofyn amdanynt.

A oes unrhyw un arall yn ymwneud â'r apêl?

Byddwn yn cyhoeddi hysbysiad o bob apêl ar ein gwefan. Mae angen i ni ysgrifennu at nifer o sefydliadau sydd â diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â chefn gwlad ac at bawb arall sydd wedi gwneud sylwadau i'r Awdurdod Perthnasol ynglŷn â'ch cais.

Bydd hyn yn rhoi cyfle i bobl a grwpiau eraill (a elwir fel arall yn 'bersonau â diddordeb) wneud sylwadau ar eich cynigion. Gall personau â diddordeb hefyd gymryd rhan mewn gwrandawriadau neu ymchwiliadau gyda chaniatâd yr Arolygydd.

Byddwch chi a'r Awdurdod Perthnasol yn gallu gwneud sylwadau ar gynrychioliadau personau â diddordeb yn ddiweddarach yn y broses.

Dylech fod yn ymwybodol y caiff y dystiolaeth a dderbynnir gennym ei harddangos ar ein gwefan a gellir ei harolygu a'i chopïo yn swyddfeydd yr Awdurdod Perthnasol ac yn ein swyddfeydd ni'n hunain. Felly, ni ddylech gynnwys gwybodaeth bersonol oni bai eich bod yn fodlon i bobl eraill ei gweld.

Amserlenni ar gyfer anfon eich apêl

Os ydych yn mynd i apelio, mae'n rhaid i ni dderbyn eich holl ddogfennau o fewn chwe wythnos i ddyddiad y penderfyniad a

achosodd yr apêl neu, lle bod y penderfyniad hwnnw yn benderfyniad i roi cyfarwyddyd, o ddyddiad y cyfarwyddyd hwnnw.

Dylech benderfynu cyn gynted â phosibl os ydych yn mynd i apelio. Mae'n rhaid i ni dderbyn yr holl ddogfennau sy'n ategu eich apêl o fewn y terfyn amser; fel arall, ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau gweithredu ar eich apêl. Fel rheol, ni allwn dderbyn apêl hwyr. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn gwneud hynny.

Amser ac arian

Nid oes rhaid i chi dalu am wneud yr apêl, ond bydd rhaid i chi dalu am eich treuliau eich hunan. Bydd cyfanswm cost eich apêl yn dibynnu ar p'un a ydych yn cyflogi ymgynghorwyr neu gynrychiolwyr proffesiynol. Po fwyaf cymhleth yw'r apêl, y mwyaf o amser bydd yn rhaid i'ch cynrychiolwyr dreulio yn gweithio ar eich apêl.

Caiff y rhan fwyaf o'r apeliadau yr ymdrinnir â hwy gan yr Arolygiaeth Gynllunio eu penderfynu arnynt drwy gyfnewid datganiadau a gwybodaeth ysgrifenedig. Mae'r weithdrefn ysgrifenedig yn llai cymhleth na'r gweithdrefnau eraill a hon yw'r cyflymaf ac fel rheol, y rhataf. Y dulliau eraill o ymdrin ag apeliadau yw drwy wrandawiadau neu ymchwiliadau. Byddwn yn sôn mwy am y dulliau gwahanol yn ddiweddarach yn y canllaw hwn.

Weithiau, pan fydd gwrandawriad neu ymchwiliad neu os byddwn wedi trefnu un, efallai y bydd yn ofynnol i un parti dalu costau'r parti arall, yn ogystal â'u rhai eu hunain. Rhoddir mwy o fanylion yn adran chwech y canllaw hwn.

Tystiolaeth fideo a sain

Ni allwn dderbyn tystiolaeth ar fideo neu ar dâp sain ar gyfer apeliadau yr ymdrinnir â hwy drwy gyfnewidiadau ysgrifenedig. Mae hyn oherwydd na allwn fod yn sicr y bydd gan bob un sy'n rhan o'r apêl offer addas i chwarae'r dystiolaeth, neu yr anfonwyd copïau unfath at bawb. Gallwch anfon crynodeb ysgrifenedig o gynnwys y dystiolaeth fideo neu sain, gan gynnwys ffotograffau, atom ni neu'r Awdurdod Perthnasol gyda'ch dogfennau apelio.

Mewn gwrandawriad neu ymchwiliad, bydd yr Arolygydd yn penderfynu p'un a ddylid ystyried unrhyw dystiolaeth fideo neu sain. Bydd yr Arolygydd yn eich hysbysu o'u penderfyniad pan fydd y gwrandawriad neu'r ymchwiliad yn agor. Mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Awdurdod Perthnasol i ganfod p'un a oes ganddynt offer addas i'w defnyddio yn y gwrandawriad neu'r ymchwiliad, neu os byddant yn caniatáu i chi ddefnyddio eich offer eich hunain.

Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn darparu gwasanaeth o'r un safon uchel i'w gwsmeriaid yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cydnabyddwn y gall ein cwsmeriaid fynegi eu barn yn well yn eu dewis iaith gyfathrebu. Yn unol â hynny, rydym yn eu croesawu i gyfathrebu â ni yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gall unrhyw berson sy'n dymuno siarad yn Gymraeg mewn ymchwiliad neu wrandawriad wneud hynny, ond byddai'n ddefnyddiol pe gallech hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio ymlaen llaw er mwyn gallu gwneud trefniadau.

Os hoffech ymdrin â gweithdrefn eich apêl drwy gyfrwng y Gymraeg, a fydddech cystal â rhoi gwybod i ni er mwyn i ni allu gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Rhestr wirio

- Cyn i chi anfon y ffurflen apelio atom, dylech sicrhau eich bod wedi cynnwys:
- Datganiad yn cadarnhau eich diddordeb yn y tir;
- Disgrifiad digonol o'r tir sy'n destun yr apêl i'n galluogi i nodi'r tir dan sylw;
- Copi o *Fap Arolwg Ordnans/Map mynediad CCGC 1:10,000* neu ddarn ohono yn dangos ffiniau'r tir yn glir; *Pa fath o fap yw'r gorau?*
- Eich enw, eich cyfeiriad a'ch cod post;
- Digon o wybodaeth er mwyn i'r Arolygydd a'r Awdurdod Perthnasol ddeall eich rhesymau dros apelio.
- P'un a hoffech gael eich gwrandao ai peidio.

Cofiwch, os nad ydym yn derbyn eich holl ddogfennau apelio o fewn y terfyn amser o chwe wythnos, ni fyddwn fel rheol yn ymdrin â'ch apêl.

Tynnu eich apêl yn ôl

Gallwch dynnu eich apêl yn ôl unrhyw bryd cyn y cyhoeddir penderfyniad. Os byddwch yn penderfynu yr hoffech dynnu eich apêl

yn ôl, dylech ffonio'r swyddog achos ar unwaith ac yna ysgrifennu i gadarnhau eich bod yn gwneud hynny, gan roi rhif cyfeirnod yr apêl. Dylech ddweud wrth yr awdurdod perthnasol ar unwaith hefyd. Mae hwn yn arbennig o bwysig os ydym wedi trefnu i wrandawriad neu ymchwiliad gael ei gynnal. Os byddwch yn tynnu apêl yn ôl yn afresymol ar ôl i ni ysgrifennu atoch yn eich hysbysu am ddyddiad y gwrandawriad neu'r ymchwiliad, efallai y byddwn yn gorfod talu costau'r bobl eraill dan sylw. Mae gan adran chwech fwy o wybodaeth am gostau.

Amserlen ar gyfer apeliadau

Mae terfynau amser pwysig i'w cadw pan fyddwch yn anfon sylwadau atom ar eich apêl. Maent yn berthnasol i'r Awdurdod Perthnasol hefyd. Pan fyddwn wedi derbyn eich apêl, mae'n rhaid i ni aros am 35 o ddyddiau o'r dyddiad yr anfonwn gopi o'ch ffurflen apêl at yr Awdurdod Perthnasol. Unwaith y bydd hyn wedi digwydd, byddwn yn ysgrifennu atoch yn cadarnhau pa weithdrefn y bydd yn ei dilyn. Bydd ein llythyrau hefyd yn nodi'r 'dyddiad dechrau'. Mae hwn yn ddyddiad pwysig am ei fod yn dechrau'r amserlen y byddwn yn derbyn sylwadau gennych chi a'r Awdurdod Perthnasol, ac y byddwn yn rhoi gwybod i chi am y terfynau amser. **Os byddwn yn derbyn sylwadau ar ôl unrhyw un o'r terfynau amser, ni fyddwn fel rheol yn eu hystyried a byddwn yn eu dychwelyd.**

Mae'r amserlen a'r camau canlynol yn berthnasol i bob apêl, pa weithdrefn bynnag a ddefnyddir.

Chwe wythnos ar ôl y dyddiad dechrau, gallwch chi a'r Awdurdod Perthnasol anfon datganiad achos. Byddwn yn anfon copi atoch chi a'r Awdurdod Perthnasol o'r hyn y mae'r llall wedi'i anfon ac unrhyw sylwadau gan bersonau â diddordeb (os ydym wedi'u derbyn mewn da bryd).

Naw wythnos ar ôl y dyddiad dechrau, gallwch chi a'r Awdurdod Cynllunio Lleol anfon unrhyw sylwadau atom ar ddatganiad a sylwadau eich gilydd gan bersonau â diddordeb.

Bydd rhai camau eraill yn berthnasol os ymdrinnir â'ch apêl mewn gwrandawriad neu ymchwiliad. Esbonnir y rhain yn adrannau pedwar a phump.

3. Y weithdrefn ysgrifenedig

Cynlluniwyd yr amserlen ar gyfer y weithdrefn ysgrifenedig i beri i'r apêl fynd yn ei blaen yn gyflym a theg. Dylai pawb sy'n rhan o'r apêl gadw at yr amserlen neu mae'n bosibl na fyddwn yn ystyried eu sylwadau.

Sail eich apêl, a nodir ar y ffurflen apelio, sy'n gwneud eich achos. Os na fyddwch yn ei rhoi i ni, neu os credwn fod eich sail yn annigonol, byddwn yn gofyn i chi am fwy o fanylion. Os na fyddwn yn eu derbyn mewn da bryd ni fyddwn yn ymdrin â'ch apêl.

Dywed y rheoliadau bod yn rhaid i'r Awdurdod Perthnasol lenwi holiadur a'i anfon atoch chi ac atom ni gyda dogfennau i ategu eu penderfyniad. Dylai'r dogfennau hyn gynnwys:

Datganiad yn cynnwys arwydd o ran p'un a fydd yn gwrthwynebu'r apêl ac, os felly, ei sail dros wneud hynny;

Copïau o unrhyw ohebiaeth berthnasol rhwng yr apelydd a'r Awdurdod Perthnasol;

Copïau o unrhyw gynrychioliadau a wnaed i'r Awdurdod Perthnasol gan unrhyw berson ar wahân i'r apelydd o ran y penderfyniad ar y rhan o'r Awdurdod Perthnasol sy'n ymwneud â'r apêl.

O fewn chwe wythnos i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i ni dderbyn dau gopi o unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech chi neu'r Awdurdod Perthnasol eu gwneud. Byddwn yn anfon copi o'ch sylwadau at yr Awdurdod Perthnasol ac yn anfon copi atoch chi o unrhyw beth y byddant yn ei anfon atom ni. Byddwn yn anfon unrhyw sylwadau gan bersonau â diddordeb atoch hefyd.

O fewn naw wythnos i'r dyddiad dechrau, gallwch chi a'r Awdurdod Perthnasol anfon unrhyw sylwadau atom ar ddatganiadau eich gilydd ac ar y cynrychioliadau hynny a wnaed gan bersonau â diddordeb. Dylai eich sylwadau fod yn gysylltiedig â'r materion hyn yn unig, ac ni ddylent gynnwys unrhyw dystiolaeth newydd. Os byddwn yn derbyn y rhain y tu allan i'r terfyn amser, ni fyddwn fel rheol yn eu hystyried.

Nid oes angen i chi roi sylwadau er lles gwneud hynny.

Sylwadau Hwyr

Disgwyliwn i bawb sy'n rhan o'r apêl gadw at yr amserlen. Os byddwn yn derbyn sylwadau gennych chi, yr Awdurdod Perthnasol neu bersonau â diddordeb ar ôl i'r terfyn amser ddod i ben, ni fydd yr Arolygydd fel rheol yn eu hystyried pan fyddant yn penderfynu eich

apêl. Os bydd yr Arolygydd yn gofyn am fwy o wybodaeth gennych chi neu'r Awdurdod Perthnasol, byddwn yn anfon copi o'r wybodaeth honno atoch chi neu'r Awdurdod Perthnasol. Byddwn yn caniatáu amser i roi sylwadau.

Yr ymweliad â'r safle

Gallwch fynd yng nghwmni'r Arolygydd pan fydd yn ymweld â'r safle. Wrth benderfynu p'un a ddylech fynd yng nghwmni'r Arolygydd, dylech gofio na fydd yr Arolygydd yn gallu derbyn tystiolaeth na thrafod yr apêl. Mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd, fodd bynnag, yn gofyn i chi dynnu sylw at nodweddion ffisegol y cyfeirir atynt yn eich tystiolaeth ysgrifenedig. Bydd yr Arolygwyr yn cadw'n gaeth at y rheol hon.

Os byddwch yn cosi pwyntiau tystiolaeth yn ystod yr ymweliad, bydd yr Arolygydd yn gofyn i chi beidio â gwneud hynny ac yn esbonio pam. Os byddwch yn parhau i drafod y dystiolaeth, mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn dod â'r ymweliad i ben ac yn gadael y safle.

Os penderfynwch eich bod am fynd gyda'r Arolygydd, byddwn yn hysbysu'r Awdurdod Perthnasol am y dyddiad, yr amser a'r man cyfarfod er mwyn iddynt gael cyfle i fynychu (hyd yn oed os byddant yn dewis peidio â mynd).

4. Y weithdrefn gwrandawriad

Os na fyddwch chi neu'r Awdurdod Perthnasol yn cytuno i'r weithdrefn ysgrifenedig, cynhelir gwrandawriad neu ymchwiliad yn lle hynny. Trafodaeth am yr apêl a gaiff ei harwain gan yr Arolygydd yw gwrandawriad. Mae'n fwy anffurfiol ac fel arfer yn gyflymach nag ymchwiliad ac mae'n gwneud i'r partïon ganolbwyntio ar y prif faterion o anghydfod. Disgwyliwn i'r rhan fwyaf o wrandawiadau gael eu cwblhau o fewn awr a hanner.

Nid yw gwrandawiadau bob amser yn addas ar gyfer pob apêl, yn arbennig y rheini sy'n gymhleth neu'n ddadleuol, neu sydd wedi achosi llawer o ddiddordeb lleol neu lle y bo angen croesholi tystion.

Fel gweithdrefnau eraill, ceir terfynau amser pwysig i ni dderbyn eich sylwadau. Ni fydd yr Arolygydd fel rheol yn ystyried unrhyw sylwadau a dderbynnir gennym ar ôl y terfyn amser, a byddwn yn eu dychwelyd.

Mae'r amserlen a chamau'r apêl sy'n arwain at y gwrandawriad yr un fath â'r weithdrefn ysgrifenedig ac fe'u hesbonnir yn adran tri.

Hysbysiad o'r gwrandawriad

Oni chytunir ar gyfnod rhybuddio byrrach gyda chi a'r Awdurdod Perthnasol, byddwn yn rhoi o leiaf bedair wythnos o rybudd i chi o'r trefniadau ar gyfer gwrandawriad.

Mae gennym ddyletswydd i benderfynu ar bob apêl mor effeithlon a chost-effeithiol â phosibl tra'n rhoi cyfle cyfartal i bob parti. Fodd bynnag, mae'r amser sydd gennym i ymdrin â'r apeliadau a dderbynnir yn gyfyngedig. Am y rheswm hwn, dim ond un dyddiad a gynigir ar gyfer y gwrandawriad y byddwch chi a'r Awdurdod yn gallu ei wrthod. Os byddwch yn gwrthod y dyddiad cyntaf, byddwn yn dewis un arall. Byddwn yn gwneud ein gorau i osgoi unrhyw ddyddiadau anghyfleus a nodwyd gennych, ond oherwydd yr amser cyfyngedig sydd gennym i ymdrin ag apeliadau ni allwn sicrhau y byddwn yn gallu dod o hyd i ddiwrnod mwy cyfleus. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad a bennwyd ar gyfer eich gwrandawriad, dylech ystyried anfon rhywun i gyflwyno eich achos ar eich rhan.

Mae'n rhaid i ni hysbysu unrhyw bersonau â diddordeb hefyd er mwyn iddynt allu bod yn bresennol os dymunant. Mewn gwrandawriad, nid oes gan bersonau â diddordeb hawl i siarad, ond efallai y gellir gwrandao arnynt ar ddisgresiwn yr Arolygydd.

Ar ôl y gwrandawriad

Bydd yr Arolygydd yn ymweld â safle'r apêl ac yn gofyn i chi a'r Awdurdod Perthnasol a hoffech fynd gydag ef/hi. Mae'n bosibl y caiff yr ymweliad â'r safle ei gynnal ar ddiwrnod y gwrandawriad, ond efallai y bydd yn fuan wedyn. Gallwch fynd gyda'r Arolygydd pan fydd yn ymweld â'r safle. Wrth benderfynu p'un a fyddwch yn mynd gyda'r Arolygydd, dylech gofio na all yr Arolygydd dderbyn tystiolaeth neu drafod eich apêl (oni fydd wedi gohirio'r gwrandawriad i'r safle). Efallai y bydd yr Arolygydd, fodd bynnag, yn gofyn i chi dynnu sylw at nodweddion ffisegol y cyfeirir atynt yn eich tystiolaeth. Bydd Arolygwyr yn cadw'n llym at y rheol hon.

Os bydd yr Awdurdod Perthnasol yn penderfynu peidio â mynychu'r safle, mae'n hanfodol nad yw'r ymweliad yn eich galluogi i gael mantais annheg. Os byddwch yn codi pwyntiau yn ystod yr ymweliad, bydd yr Arolygydd yn gofyn i chi beidio â gwneud hynny ac yn esbonio pam. Os byddwch yn parhau i drafod y dystiolaeth, mae'n debygol y bydd yr Arolygydd yn rhoi'r gorau i'r ymweliad ac yn gadael y safle.

Ar ôl yr ymweliad â'r safle, bydd yr Arolygydd yn rhoi datganiad ysgrifenedig yn seiliedig ar y dystiolaeth o'i flaen. Wrth wneud ei benderfyniad, bydd yr Arolygydd bob amser, heblaw am

amgylchiadau eithriadol, yn diystyru unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig, tystiolaeth neu unrhyw ddogfen arall a dderbynnir ar ôl i'r gwrandawriad orffen.

Pobl ag anableddau

Rydym yn awyddus i gynnal pob gwrandawriad mewn adeiladau sydd â'r cyfleusterau cywir i bobl ag anableddau. Yr Awdurdod Perthnasol fydd yn dewis ac yn darparu'r lle fel rheol ac rydym wedi gofyn iddynt roi sylw arbennig i anghenion pobl ag anableddau. Os hoffech chi, neu unrhyw un rydych yn ei adnabod, fynd i'r gwrandawriad a bod gennych anghenion penodol, cysylltwch â'r Awdurdod Perthnasol i gadarnhau y gall wneud trefniadau priodol.

5. Y weithdrefn ymchwiliad

Dyma'r weithdrefn fwyaf ffurfiol ac ymestynnol o'r tair. Ystyriwn mai dim ond ar gyfer apeliadau sy'n cynnwys materion cymhleth neu niferus iawn y bydd angen ymchwiliadau cyhoeddus.

Mae camau cynnar apêl yn dilyn y weithdrefn ymchwiliad yn debyg iawn i'r rheini ar gyfer gwrandawriadau ac apeliadau cynrychioliadau ysgrifenedig. Ond mae mwy o bethau y bydd yn rhaid i chi a'r Awdurdod Perthnasol eu gwneud.

Byddwn yn cynnal ymchwiliad os byddwch chi neu'r Awdurdod Perthnasol yn penderfynu eich bod yn dymuno cael eich gwrandawrio a'n bod ni'n penderfynu bod gwrandawriad yn anaddas. Weithiau, byddwn yn penderfynu bod ymchwiliad yn angenrheidiol. Os felly, byddwn yn rhoi rhesymau i chi dros y penderfyniad. Byddwn yn gwneud y canlynol ar gyfer pob achos ymchwiliad:

- Rhoi gwybod i chi a'r Awdurdod Perthnasol y bydd ymchwiliad. Bydd ein llythyr yn pennu'r dyddiad dechrau ac yn esbonio'r hyn y bydd yn rhaid i chi ei wneud.
- Pennu dyddiad ar gyfer yr ymchwiliad.
- Penodi Arolygydd addas. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni drosglwyddo'r achos i Arolygydd arall, weithiau ar fyr rybudd, ond byddwn yn dweud wrthyfych am unrhyw newid.

Byddwn yn pennu dyddiad yr ymchwiliad cyn gynted â phosibl. Byddwn yn cysylltu â chi a'r Awdurdod Perthnasol ynglŷn â'r trefniadau. Dylai dyddiad yr ymchwiliad fod o fewn 22 wythnos i'r dyddiad dechrau. Fel rheol, gallwch chi a'r Awdurdod Perthnasol wrthod un dyddiad cyn i ni drefnu'r ymchwiliad. Mae gennych hawl i gael rhybudd ysgrifenedig o drefniadau'r ymchwiliad o leiaf 28 diwrnod ymlaen llaw. Ond os yw'r apêl yn un frys, neu os caiff

dyddiad cynnar ei ryddhau o ganlyniad i apêl yn cael ei chanslo, efallai y gofynnwn i chi dderbyn llai o rybudd.

Cyfnewid datganiadau ysgrifenedig

Mae'n rhaid i chi a'r Awdurdod Perthnasol anfon dau gopi o'r achos (ynghyd ag unrhyw ddogfennau eraill) y mae'r ddau ohonoch yn bwriadu'i gyflwyno yn yr ymchwiliad. Mae'n rhaid i ni dderbyn y rhain o fewn chwe wythnos i'r dyddiad dechrau. Bydd y datganiad a'r dogfennau ategol ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt.

Byddwn yn anfon copi o ddatganiad yr Awdurdod Perthnasol atoch a chopi o'ch datganiad chi atynt hwy. Byddwn hefyd yn anfon copi o unrhyw sylwadau gan bersonau â diddordeb ac unrhyw un arall sydd â'r hawl i roi sylwadau atoch chi a'r Awdurdod Perthnasol. Gallwch chi a'r Awdurdod Perthnasol wneud sylwadau ysgrifenedig ar y rhain.

Os oes gennych chi, neu unrhyw un o'ch tystion, ddatganiad sydd am gael ei ddarllen yn yr ymchwiliad ('prawf tystiolaeth'), mae'n rhaid i ni dderbyn dau gopi o leiaf bedair wythnos cyn yr ymchwiliad. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Perthnasol wneud yr un fath. Byddwn yn anfon copi o'ch prawf tystiolaeth at yr Awdurdod Perthnasol a chopi o'u un hwy atoch chi. Os yw'r datganiad yn fwy nag 1,5000 o eiriau o hyd dylai fod crynodeb hefyd. Dylai'r crynodeb adlewyrchu cynnwys y prawf ac ni ddylai gyflwyno tystiolaeth newydd. Lle y darperir crynodeb, fel rheol dim ond hwnnw gaiff ei ddarllen yn yr ymchwiliad. Os na fyddwch chi neu'r Awdurdod Perthnasol yn gwneud hyn, mae'n bosibl y caiff yr ymchwiliad ei atal am gyfnod ac efallai y byddwch chi neu'r Awdurdod Perthnasol yn gorfod talu costau.

Datganiad tir cyffredin

Mae'n rhaid i chi drafod yr holl bwyntiau ynghylch eich apêl yr ydych chi a'r Awdurdod Perthnasol yn cytuno arnynt. O leiaf bedair wythnos cyn dyddiad yr ymchwiliad, mae'n rhaid i chi anfon copi ysgrifenedig atom o'r hyn y mae'r ddau ohonoch wedi cytuno arno. Gelwir hyn yn 'ddatganiad tir cyffredin'.

Hysbysebu'r ymchwiliad

Byddwn yn rhoi gwybod i'ch awdurdod lleol, y fforwm mynediad perthnasol ac unrhyw bobl sydd wedi ysgrifennu atom am y trefniadau ar gyfer yr ymchwiliad.

Yn yr ymchwiliad

Bydd yr Arolygydd yn dechrau trwy gyflwyno ei hun, cyhoeddi testun yr ymchwiliad a gofyn am enwau'r holl bobl sy'n dymuno siarad. Yna, fel rheol, bydd yr Arolygydd yn esbonio'r weithdrefn.

Mae'n rhaid i bawb sy'n cymryd rhan yn yr ymchwiliad ddilyn yr un rheolau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y weithdrefn yn deg i bawb. Bydd yr Arolygydd yn sicrhau bod ganddo'r holl wybodaeth sydd ei hangen arno i benderfynu ar yr apêl.

Bydd yr Awdurdod Perthnasol fel rheol yn cyflwyno ei achos gyntaf, ac yna yn galw ar unrhyw dystion. Gallwch chi a'r Arolygydd ofyn cwestiynau. Yna, byddwch yn cyflwyno eich achos yn yr un modd, a gall yr Awdurdod Perthnasol a'r Arolygydd ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt i chi neu'ch dystion.

Os nad ydych yn berchen ar safle cyfan yr apêl, gall y perchnogion eraill siarad a chwestiynu'r dystion hefyd. Ar ôl hyn, bydd cyfle fel rheol i'r personau â diddordeb – er enghraifft, cymdogion neu gynrychiolwyr fforymau mynediad lleol - gyflwyno eu safbwynt. Mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn caniatáu iddynt gael eu holi neu i'ch cwestiynu chi, a bydd yn sicrhau eich bod chi a'r Awdurdod Perthnasol wedi gweld unrhyw lythyrau gan bersonau neu grwpiau â diddordeb na allant fod yno yn bersonol. Mae gennych chi, a'r Awdurdod Perthnasol hawl i wneud datganiad cau. Chi, yr apelydd, fydd fel arfer yn siarad olaf. Mae hyn yn eich galluogi i ddweud wrth yr Arolygydd am y pwyntiau pwysig sydd wedi codi yn ystod y cwestiynau. Ond ni allwch gyflwyno dadleuon newydd.

Ymweliad â safle'r ymchwiliad

Fel rheol, bydd yr Arolygydd yn ymweld â safle'r apêl a'r ardal o'i gwmpas ar ei ben ei hun, cyn i'r ymchwiliad ddechrau. Gallwch chi a'r Awdurdod Perthnasol fel eich gilydd ofyn i'r Arolygydd ymweld â'r safle yn ystod yr ymchwiliad, neu ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben, ac i chi neu eich cynrychiolwyr fod yno. Yn ystod yr ymweliad â'r safle, bydd yr Arolygydd yn gofyn i chi a'r Awdurdod Perthnasol p'un a oes unrhyw beth am safle'r apêl yr hoffech dynnu sylw ato. Ond ni allwch sôn am deilyngdod yr apêl.

Sylwadau hwyr

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd yr Arolygydd yn ystyried unrhyw dystiolaeth a dderbynnir gennym ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben. Os cawn dystiolaeth newydd ar ôl yr ymchwiliad ond cyn i ni gyhoeddi penderfyniad yr Arolygydd, byddwn yn ei throsglwyddo i'r Arolygydd i benderfynu a fydd ef/hi yn ei hystyried. Os, mewn amgylchiadau anarferol iawn, y byddant, byddwn yn ei throsglwyddo i'r bobl eraill a oedd yn rhan o'r ymchwiliad. Os bydd angen, byddwn yn ailagor yr ymchwiliad.

Pobl ag anableddau

Rydym yn awyddus i gynnal pob ymchwiliad mewn adeiladau sydd â chyfleusterau cywir i bobl ag anableddau. Yr Awdurdod Perthnasol fydd yn dewis ac yn darparu'r lle fel rheol ac rydym wedi gofyn iddynt roi sylw arbennig i anghenion pobl ag anableddau. Os hoffech chi, neu unrhyw un rydych yn ei adnabod, fynd i'r gwrandawriad a bod gennych anghenion penodol, cysylltwch â'r Awdurdod Perthnasol i gadarnhau y gall wneud trefniadau priodol.

Cyfarfod cyn ymchwiliad

Weithiau, os oes llawer o bobl yn dymuno mynd i'r ymchwiliad neu os yw'r apêl yn gymhleth, byddwn yn trefnu cyfarfod cyn yr ymchwiliad (cyfarfod cyn-ymchwiliad). Byddwn yn rhoi gwybod i chi os penderfynwn wneud hyn, ac yn esbonio'r hyn y bydd y cyfarfod yn ei gwmpasu. Byddwn fel rheol yn trefnu'r math hwn o gyfarfod os credwn y bydd yr ymchwiliad yn para am fwy nag wyth diwrnod.

Dim ond pethau megis y drefn y byddwch chi, yr Awdurdod Perthnasol a phobl eraill yn cyflwyno eu tystiolaeth y bydd y math hwn o gyfarfod yn ymdrin â hwy. Ni allwch drafod cynrychioliadau eich apêl yn y cyfarfod hwn.

6. Dyfarnu Costau Apeliadau

Fel rheol, byddwch chi a'r Awdurdod Perthnasol yn gorfod talu eich treuliau eich hunain ar gyfer eich apêl, p'un a benderfynir arni drwy'r weithdrefn ysgrifenedig, gwrandawriad neu ymchwiliad.

Os penderfynir ar yr apêl drwy wrandawriad neu ymchwiliad, gallwch ofyn i'r Arolygydd orchymyn i'r Awdurdod Perthnasol dalu rhai o'ch costau neu'ch costau i gyd. Gall yr Awdurdod Perthnasol hefyd ofyn i chi dalu rhai o'u costau neu eu costau i gyd. Dim ond os gall y person sy'n gwneud cais ddangos bod yr ochr arall wedi ymddwyn yn afresymol ac wedi peri iddynt wastraffu neu dalu treuliau diangen y bydd yr Awdurdod yn gwneud hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am y rheolau sy'n ymwneud â chostau, gweler Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 23/93 sydd ar gael o'r Llyfrfa, rhif ffôn 0870 600 5572 neu ar eu gwefan www.hmsso.gov.uk, neu ar wefan yr Arolygiaeth www.planning-inspectorate.gov.uk/cymru/wal/index_e.htm.

7. Penderfyniad yr Arolygydd

Bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu atoch gyda'i benderfyniad. Bydd fel rheol yn:

- disgrifio'n fras y rheswm dros yr apêl;

- nodi'r materion pwysig;
- archwilio'r prif ddadleuon o blaid ac yn erbyn yr apêl ac yn esbonio pam fod yr Arolygydd wedi dod i'r penderfyniad.

Byddwn yn anfon copi o'r penderfyniad atoch chi, yr Awdurdod Perthnasol ac unrhyw un arall sydd â'r hawl i gael copi neu sydd wedi gofyn am un. Caiff y penderfyniad ei roi ar ein gwefan am o leiaf chwe mis o ddyddiad y penderfyniad.

8. Cwynion a Heriau

Cwynion amdanom

Os oes gennych unrhyw gwynion neu gwestiynau am y penderfyniad, neu'r ffordd rydym wedi ymdrin â'r apêl, ysgrifennwch at:

Y Rheolwr Cwynion
Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0303 444 5940

E-bost: wales@planninginspectorate.gov.uk

Bydd y Rheolwr Cwynion yn eich ateb, neu bydd yn gofyn i adran o fewn yr Arolygiaeth ateb oherwydd bod ganddynt wybodaeth arbenigol benodol.

Byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn a gallwch ddisgwyl ateb llawn o fewn tair wythnos. **Fodd bynnag, ni allwn ailystyried apêl os gwnaed y penderfyniad arno eisoes.**

Sut y gallaf herio penderfyniad?

Mae'n bosibl y gallwch herio'r penderfyniad drwy adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys. Mae'r Arolygiaeth yn argymhell yn gryf eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol os bwriedwch wneud hynny.

Ombwdsmon Gweinyddol Cymru

Os ydych o'r farn na wnaethom ymdrin â chi yn deg, gallwch ofyn i'r Ombwdsmon ymchwilio. Nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw bŵer i gwestiynu teilyngdod apêl neu i newid y penderfyniad. Mae'r

Ombwdsmon ond yn ymboeni ynghylch y ffordd y byddwn yn ymdrin ag apeliadau ac yn eu gweinyddu. Bydd yr Ombwdsmon fel rheol yn disgwyl i chi fod wedi gwneud cwyn i ni yn gyntaf cyn ymchwilio i'ch achos. Gallwch gwyno i'r Ombwdsmon yn:

Ombwdsmon Gweinyddol Cymru
Pumed Llawr
Tŵr y Brifddinas
Heol y Brodyr Llwydion
Caerdydd
CF10 3AG

Y Cyngor ar Dribiwnlysoedd

Os credwch fod rhywbeth o'i le ar y weithdrefn sylfaenol a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer ymdrin ag apêl, gallwch gwyno i'r Cyngor ar Dribiwnlysoedd yn:

Council on Tribunals
22 Kingsway
London
WC2B 6LE

Bydd y Cyngor yn ymgymryd â'ch cwyn os credant ei bod yn ymwneud â hwy. Yn debyg i'r Ombwdsmon, nid ydynt yn pryderu am deilyngdod yr apêl ac nid oes ganddynt unrhyw bŵer i newid y penderfyniad.

Apeliadau yn Lloegr

Os hoffech ymholi ynglŷn ag apeliadau yn erbyn penderfyniad awdurdod perthnasol i wrthod cyfyngu ar neu eithrio mynediad i ardaloedd o gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig ar safle yn Lloegr, cysylltwch â Thîm Mynediad a Chyfyngiadau Lloegr yn;

English Access and Restriction Team
Room 215
Regus House
1 Friary
Temple Quay
Bristol BS1 6EA

Ffôn: 0303 444 5584

E-bost: environmental.appeals@planninginspectorate.gov.uk

9. Diogelu Data a Phreifatrwydd yn yr Arolygiaeth Gynllunio

O dan Ddeddf Diogelu Data 1998 mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i'ch hysbysu am unrhyw wybodaeth a gasglwn gennych a'i diogelu. Wrth ystyried apêl, bydd yr Arolygydd (neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru) yn derbyn amrywiaeth o wybodaeth bersonol. Daw'r wybodaeth hon o nifer o ffynonellau gan gynnwys y ffurflen apelio ac unrhyw ddogfennaeth i ddangos cefnogaeth neu wrthwynebiad.

Yn unol â goblygiadau statudol cyfredol sicrheir y bydd y rhan fwyaf o'r ddogfennaeth a dderbynnir ar gael i'r cyhoedd. Er hynny, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cydnabod pwysigrwydd preifatrwydd unigolion. Mae'r adran hon yn nodi pa wybodaeth a gasglwn a sut y caiff ei defnyddio.

Diogelu Data

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1990 wrth drafod eich gwybodaeth bersonol.

Yn arbennig, byddwn:

- ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion ymdrin â'r apêl berthnasol a'i hystyried;
- ond yn dal eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag y bo'n rhesymol angenrheidiol. Ar gyfer apeliadau a gwblhawyd, 12 mis yw hyn fel arfer ac yn achos heriau, fe'u delir am 3 blynedd. Byddwn yn cadw copi o benderfyniad yr Arolygydd yn amhenodol. Mae'n bosibl y gallai gwybodaeth bersonol fod yn rhan o benderfyniad yr Arolygydd.

Pwy all gael gafael ar eich gwybodaeth bersonol?

Bydd y papurau apelio yn agored i'w harolygu mewn lleoliadau penodol a gall unrhyw un eu harolygu a chymryd copïau ohonynt. Mae gan unrhyw berson sydd â'r hawl i gael eu hysbysu am y penderfyniad mewn unrhyw achos ymchwilio hawl gyfreithiol i wneud cais i arolygu'r dogfennau, y lluniau a'r cynlluniau rhestredig o fewn 6 wythnos i ddyddiad y penderfyniad. Fel rheol, ni chaiff ceisiadau eraill i weld y dogfennau apelio eu gwrthod. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl y caiff gwybodaeth a dderbynnir ei rhoi ar ein gwefan a bydd modd i unrhyw drydydd parti gael gafael arni yn fyd-eang, gan gynnwys unigolion neu sefydliadau nad oes ganddynt unrhyw ddiddordeb uniongyrchol yn yr apêl benodol.

Pa wybodaeth a ddelir gennym?

Pan fyddwn yn ymdrin ag apêl, gallem dderbyn gwybodaeth bersonol amdanoch gan nifer o bartïon, gan gynnwys chi eich hunan, yr Awdurdod Perthnasol neu bersonau eraill â diddordeb yn yr apêl. Mae'r wybodaeth a gawn yn amrywio ond mae'n bosibl y bydd yn cynnwys eich enw, eich cyfeiriad, eich proffesiwn, a gwybodaeth yn ymwneud â'ch barn neu'ch bwriadau o ran apêl.

Pa gamau y dylech chi eu cymryd?

- Dim ond os ydych yn fodlon i wybodaeth bersonol gael ei gweld yn gyhoeddus y dylech ei rhoi;
- Peidiwch â chynnwys gwybodaeth bersonol am drydydd pari arall (gan gynnwys aelod o deulu) oni bai eich bod wedi dweud wrth yr unigolyn dan sylw a'u bod yn fodlon i chi ei hanfon;
- Dywedwch wrthym cyn gynted â phosibl os bydd unrhyw ran o'r wybodaeth bersonol a ddarparwyd gennych yn newid.

Y Rheolwr Data

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r rheolwr data (y sefydliad sy'n gyfrifol am ymdrin â gwybodaeth bersonol).

Eich hawliau i weld gwybodaeth bersonol

Ar gais, mae'n rhaid i ni roi copi darllenadwy i chi o'r data personol sydd gennym amdanoch o fewn 40 o ddiwrnodau. Ceir tâl statudol o £10. Bydd angen tystiolaeth o'ch prawf adnabod cyn y gellir rhyddhau gwybodaeth. Mae cadw data cywir yn fanteisiol i ni ac i chi. Os yw'r data a ddelir gennym yn anghywir mewn unrhyw ffordd, yna yn ddi-dâl a lle y bo'n briodol, gallwch gael y data wedi'i:

- ddileu
- unioni neu ei ddiwygio
- cwblhau.

Ar gyfer unrhyw ymholiad neu bryder am ein polisi preifatrwydd, neu i wneud cais am fynediad i'ch data personol, cysylltwch â Rheolwr Data yr Arolygiaeth Gynllunio:

Alastair Grant
Data Manager
The Planning Inspectorate
Room 4/24 Hawk Wing
Temple Quay House
2, The Square
Bristol, BS1 6PN

Ffôn: 0117 372 8922

E-bost: alastair.grant@planning-inspectorate.gsi.gov.uk

Mae gwybodaeth berthnasol am ein polisi preifatrwydd ar gael ar ein gwefan yn www.planning-inspectorate.gov.uk/cymru/wal/index_e.htm yn yr adran a nodir "Datganiad Preifatrwydd".

Cwynion ynglŷn â chael hawl i weld gwybodaeth bersonol

Ein nod yw sicrhau ein bod wedi ateb unrhyw faterion yn foddhaol, fodd bynnag, os nad ydych yn fodlon ar ein hymateb gallwch gysylltu â:

The Information Commissioner
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Switsfwrdd: 01625 545 700
Ffacs: 01625 524 510
DX: 20819 Wilmslow
Gwefan: www.dataprotection.gov.uk/
E-bost: mail@dataprotection.gov.uk

Atodiad un – Y Weithdrefn Ysgrifenedig

Amserlen	Chi	Awdurdod Perthnasol	Personau â Diddordeb
<p>Gwneir yr apêl (o fewn y terfyn amser o chwe wythnos). Ar ddiwedd y 35 o ddiwrnodau o'r dyddiad yr anfonwn eich dogfennau apelio at yr Awdurdod Perthnasol, byddwn yn pennu dyddiad dechrau ac yn dweud wrth unrhyw bersonau â diddordeb eich bod wedi apelio.</p>	<p>Byddwch yn anfon eich ffurflen apelio a'ch dogfennau ategol atom. Dylai sail eich apêl gyfrif am eich achos llawn.</p>		
<p>O fewn pythefnos i dderbyn yr apêl</p>	<p>Byddwch yn derbyn holiadur wedi'i lenwi ac unrhyw ddogfennau ategol gan yr Awdurdod Perthnasol</p>	<p>Bydd yr Awdurdod Perthnasol yn anfon holiadur wedi'i lenwi a dogfennau ategol atoch chi a ninnau.</p>	
<p>O fewn chwe wythnos i'r dyddiad dechrau (Fel rheol, ni fyddwn yn derbyn datganiadau hwyr. Yn hytrach, byddwn yn eu dychwelyd atoch.)</p>	<p>Byddwch yn anfon dau gopi o unrhyw ddatganiad pellach atom. Dim ond â materion a godwyd gan yr holiadur ac unrhyw ddogfennau ategol y dylai hwn fod yn gysylltiedig.</p>	<p>Bydd yr Awdurdod Perthnasol yn anfon dau gopi o unrhyw ddatganiad pellach atom.</p>	<p>Bydd personau â diddordeb yn anfon unrhyw sylwadau atom</p>
<p>O fewn naw wythnos i'r dyddiad dechrau (Fel rheol, ni fyddwn yn derbyn sylwadau hwyr. Yn hytrach, byddwn yn eu dychwelyd atoch).</p>	<p>Byddwch yn anfon dau gopi o'ch sylwadau terfynol atom ar ddatganiad yr Awdurdod Perthnasol ac ar unrhyw sylwadau gan bersonau â diddordeb.</p>	<p>Bydd yr Awdurdod Perthnasol yn anfon dau gopi o'u sylwadau terfynol atom ar eich datganiad chi ac ar unrhyw sylwadau gan bersonau â diddordeb.</p>	

Penderfyniad

Ar ôl yr ymweliad â'r safle, bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu'r penderfyniad. Byddwn yn anfon copi o'r penderfyniad atoch chi, yr Awdurdod Perthnasol ac unrhyw un sy'n gofyn i ni am gopi.

Atodiad dau – Y Weithdrefn Gwrandawriad

Amserlen	Chi	Awdurdod Perthnasol	Personau â Diddordeb
<p>Gwneir yr apêl (o fewn y terfyn amser o chwe wythnos). Ar ddiwedd y 35 o ddiwrnodau o'r dyddiad yr anfonwn eich dogfennau apelio at yr Awdurdod Perthnasol, byddwn yn pennu dyddiad dechrau ac yn dweud wrth unrhyw bersonau â diddordeb eich bod wedi apelio.</p>	<p>Byddwch yn anfon eich ffurflen apelio a'ch dogfennau ategol atom. Dylai sail eich apêl gyfrif am eich achos llawn.</p>		
<p>O fewn pythefnos i dderbyn yr apêl</p>	<p>Byddwch yn derbyn holiadur wedi'i lenwi ac unrhyw ddogfennau ategol gan yr Awdurdod Perthnasol</p>	<p>Bydd yr Awdurdod Perthnasol yn anfon holiadur wedi'i lenwi a dogfennau ategol atoch chi a ninnau.</p>	
<p>O fewn chwe wythnos i'r dyddiad dechrau (Fel rheol, ni fyddwn yn derbyn datganiadau hwyr. Yn hytrach, byddwn yn eu dychwelyd atoch.)</p>	<p>Byddwch yn anfon dau gopi o'ch datganiad gwrandawriad.</p>	<p>Bydd yr Awdurdod Perthnasol yn anfon dau gopi o'u datganiad gwrandawriad.</p>	<p>Bydd personau â diddordeb yn anfon unrhyw sylwadau atom</p>
<p>O fewn naw wythnos i'r dyddiad dechrau (Fel rheol, ni fyddwn yn derbyn datganiadau hwyr. Yn hytrach, byddwn yn eu dychwelyd atoch.)</p>	<p>Byddwch yn anfon dau gopi o'ch sylwadau terfynol atom ar ddatganiad yr Awdurdod Perthnasol ac ar unrhyw sylwadau gan bersonau â diddordeb.</p>	<p>Bydd yr Awdurdod Perthnasol yn anfon dau gopi o'u sylwadau terfynol atom ar eich datganiad chi ac ar unrhyw sylwadau gan bersonau â diddordeb.</p>	<p>Gall personau â diddordeb fynychu'r gwrandawriad ac, os bydd yr Arolygydd yn cytuno, gallant roi eu barn</p>

Penderfyniad

Ar ôl y gwrandawriad, bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu'r penderfyniad. Byddwn yn anfon copi o'r penderfyniad atoch chi, yr Awdurdod Perthnasol ac unrhyw un arall sy'n gofyn i ni am gopi.

Atodiad tri – Y Weithdrefn Ymchwiliad

Amserlen	Chi	Awdurdod Perthnasol	Personau â Diddordeb
<p>Gwneir yr apêl (o fewn y terfyn amser o chwe wythnos). Ar ddiwedd y 35 o ddiwrnodau o'r dyddiad yr anfonwn eich dogfennau apelio at yr Awdurdod Perthnasol, byddwn yn pennu dyddiad dechrau ac yn dweud wrth unrhyw bersonau â diddordeb eich bod wedi apelio.</p>	<p>Byddwch yn anfon eich ffurflen apelio a'ch dogfennau ategol atom. Dylai sail eich apêl gyfrif am eich achos llawn.</p>		
<p>O fewn pythefnos i dderbyn yr apêl</p>	<p>Byddwch yn derbyn holiadur wedi'i lenwi ac unrhyw ddogfennau ategol gan yr Awdurdod Perthnasol</p>	<p>Bydd yr Awdurdod Perthnasol yn anfon holiadur wedi'i lenwi a dogfennau ategol atoch chi a ninnau.</p>	
<p>O fewn pythefnos i'r dyddiad dechrau (Fel rheol, ni fyddwn yn derbyn datganiadau hwyr. Yn hytrach, byddwn yn eu dychwelyd atoch.)</p>	<p>Byddwch yn anfon dau gopi o'ch datganiad ymchwilio atom. Dim ond â materion a godwyd gan yr holiadur ac unrhyw ddogfennau ategol y dylai hwn fod yn gysylltiedig.</p>	<p>Bydd yr Awdurdod Perthnasol yn anfon dau gopi o'u datganiad ymchwilio atom.</p>	<p>Bydd personau â diddordeb yn anfon unrhyw sylwadau atom</p>
<p>O fewn naw wythnos i'r dyddiad dechrau (Fel rheol, ni fyddwn yn derbyn datganiadau hwyr. Yn hytrach, byddwn yn eu dychwelyd atoch.)</p>	<p>Byddwch yn anfon dau gopi o'ch sylwadau terfynol atom ar ddatganiad yr Awdurdod Perthnasol ac ar unrhyw sylwadau gan bersonau â diddordeb.</p>	<p>Bydd yr Awdurdod Perthnasol yn anfon dau gopi o'u sylwadau terfynol atom ar eich datganiad chi ac ar unrhyw sylwadau gan bersonau â diddordeb.</p>	
<p>Pedair wythnos cyn yr ymchwiliad (Fel rheol, ni fyddwn yn derbyn prawf tystiolaeth hwyr. Yn hytrach, byddwn yn eu dychwelyd atoch).</p>	<p>Byddwch yn anfon dau gopi o'ch prawf tystiolaeth ac un copi o'r datganiad tir cyffredin atom</p>	<p>Bydd yr Awdurdod Perthnasol yn anfon dau gopi o'u prawf tystiolaeth atom.</p>	<p>Gall personau â diddordeb fynychu'r ymchwiliad, ac, os bydd yr Arolygydd yn cytuno, gallant roi eu barn.</p>

Penderfyniad

Ar ôl yr ymchwiliad, bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu'r penderfyniad. Byddwn yn anfon copi o'r penderfyniad atoch chi, yr Awdurdod Perthnasol ac unrhyw un arall sy'n gofyn i ni am gopi.